
Ysgol Dewi Sant

Cylchlythyr 13.03.2020



Llongyfarchiadau i'r grŵp Dawnsio Disgo am eu perfformiad gŵych yng nghystadleuaeth Dawnsio Disgo Eisteddfod yr Urdd nos fawrth.

Congratulations to the Disco Dancing group for their great performance in the Urdd Dawnsio Disgo competition Tuesday evening.



Dyddiad i'ch calendr

A date for your diary

Bydd Tempest yn yr ysgol ar **Ddydd Llun 30/03/2020** yn tynnu lluniau dosbarthiadau cyfan disgyblion **Blwyddyn 6** a **Derbyn** yn unig.

Tempest will be here in school on **Monday 30/03/2020** to take whole class photos of **Year 6** and **Reception** classes only.





Nosweithiau rhieni

Parents evenings

Diolch yn fawr i bawb a fynychodd ein nosweithiau rhieni wythnos yma. Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth.

Thank-you very much to all that attended our parents evenings this week. Your support is very much appreciated.

Dilynwch ni ar Drydar

Follow us on Twitter

@YsgolDewiSant


1,792 o ddilynwyr!

1,792 followers!

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mr Hywel Roberts sydd wedi croesawu merch fach i'r teulu wythnos yma! Croeso i Marged!

Congratulations to Mr Hywel Roberts who has welcomed a daughter to the family this week! Welcome to Marged!



Congratulations

Presenoldeb yr Wythnos/ This Weeks Attendance

Meithrin / Nursery	89.9%
Derbyn / Reception	85.5%
Blwyddyn 1 / Year 1	94.7%
Blwyddyn 2 / Year 2	95.5%
Blwyddyn 3 / Year 3	93.3%
Blwyddyn 4 / Year 4	93.8%
Blwyddyn 5 / Year 5	90.3%
Blwyddyn 6 / Year 6	82.7%

Mae posib archebu y bagiau yma o'r swyddfa...

It is possible to order these bags from the office...



£13.95

Sach gefn du gyda logo yr ysgol.

Black backpack with school logo.



£6.95

Bag darllen gwyrdd gyda logo yr ysgol

Green reading bag with school logo.



£4.95

Bag ymarfer corff du gyda logo yr ysgol

Black P.E bag with school logo.

Diolch

Hwyl fawr i Mr Dafydd Wynn-Jones wrth iddo adael Ysgol Dewi Sant i gychwyn swydd newydd yn Sir Wrecsam! Rydym yn diolch o galon i Mr Jones am ei gyfraniad i fywyd Ysgol Dewi Sant dros y degawd diwethaf ac yn dymuno pob hwyl iddo yn y ei swydd newydd!

We're saying goodbye to Mr Dafydd Wynn-Jones this week as he leaves Ysgol Dewi Sant to start a new job in Wrexham county. We are very thankful to Mr Jones for his contribution to Ysgol Dewi Sant over the last decade and we wish him all the best in his new job!

Tip Eco yr Wythnos
Eco Tip of the week

Prynwch yn lleol!

O ddillad i fwyd, yr agosach at adref yr ydych yn prynu eich nwyddau, y lleiaf o garbon sy'n cael ei greu wrth eu cludo. Nid yn unig hynny, byddwch yn cefnogi busnesau a'r economi lleol sy'n golygu y byddwch, ymhen amser, yn debygol o gael hyd yn oed mwy o eitemau lleol i ddewis ohonynt.

Buy Local!

From clothes to food, the closer to home these products are made and bought, the less carbon is created with their transportation. Not only that, but you'll be supporting the local economy which means that in time you'll likely have even more local items to choose from.

Oddi-wrth y Clwb Eco.

Yr Eira



"Trysor" "Ymollwng" "Toddi" "Angen ffrind" "Suddo" "Llyncu dŵr" "Diflannu"

Band y mis



Ydych chi'n aelod o'r Urdd?

Ydych chi'n hoffi gwneud Celf a Chrefft?

Beth am greu llun 2D, model 3D, pyped, darn o emwaith, gwehyddu, creu llun ar y cyfrifiadur neu dynnu llun hefo camera?

Mae'r manylion i gyd ar wefan Yr Urdd.



Thema—Môr a mynydd

https://www.urdd.cymru/files/3615/7311/9494/Rhestr_Testunau_Eisteddfod_Genedlaethol_yr_Urdd_2020_1.7.pdf

Tudalen 45 ymlaen.

Dewch â'ch gwaith Celf i'r ysgol erbyn 30:03:20.

Hwyl ar y creu.



Are you a member of the Urdd?

Do you enjoy Art and Craft?

Why not draw a 2D picture, create a 3D model, a puppet, a piece of jewellery, weave a picture or take photographs with your camera?

All the details are on the Urdd website.



Theme—Summit to shore

https://www.urdd.cymru/files/7915/7311/9564/Urdd_National_Eisteddfod_Syllabus_2020_1.0.pdf

Page 45 onwards.

Bring your completed work to school by 30:03:20.

Have fun creating and drawing.

Mae Urdd Sir Ddinbych yn awyddus i ddisgyblion ysgolion y Sir greu bwrdd

'Dimau Dinbych'

trwy defnyddio arian mân i orchuddio darlun o ddelweddau'r Sir o'r 'Mynydd i'r môr' sef thema'r cystadleuaeth Celf eleni.



'Dimau Dinbych'




Denbighshire Urdd are asking school pupils to help create

'Dimau Dinbych'.

Loose change will be collected in order to create an image of Denbighshire from 'Summit to Shore' - this year's Art, Design and technology competitions theme.

Bydd bwced yn swyddfa'r ysgol ar gyfer cyfraniadau'r disgyblion.

Llawer o ddiolch am eich charedigrwydd a'ch cymorth.



There will be a collection bucket in the school office where donations can be placed.

Thank you for your kindness and assistance.

Urdd